



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid, Staff a Disgyblion - gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel ac yn parhau i ddilyn y canllawiau wrth ymateb i her y Coronafeirws.

'Ail-gydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr Haf a mis Medi'. Roedd hi'n braf iawn i weld nifer ohonoch yn dychwelyd i'r ysgol, roedd tua 75 ohonoch wedi mynychu ddydd Llun, 80 ddydd Mawrth ac 85 ddydd Iau. Mae nifer ohonoch wedi manteisio ar wasanaeth yr Hwb Gofal plant yn y Meithrin hefyd ar gyfer plant gweithwyr y rheng flaen. Fodd bynnag rydym yn parhau eich penderfyniad os nad ydych wedi danfon eich plentyn / plant yn ôl i'r ysgol cyn gwyliau'r Haf.

Meithrin a Derbyn – Mi fydd yr Awdurdod Addysg yn gwneud penderfyniad o safbwynt sefyllfa disgyblion y Meithrin a'r Derbyn yn dychwelyd i'r ysgol yn ystod y diwrnodau nesaf – rhagor o fanylion i ddilyn yn fuan.

Hwb Gofal plant (gweithwyr y rheng flaen) Bydd yr Hwb Gofal Plant yn parhau yn yr Ysgol Gymraeg. Mi fyddwn yn parhau i ofyn i rieni / gwarcheidwaid i ollwng eu plant tu allan i gatiâu'r ysgol. Mi fydd aelodau o staff yr ysgol fydd yn goruchwyllo'r Hwb yn cwrdd â'r plant ger y brif gât ac yn eu hebrwng i'r Hwb. Mi fydd angen eu casglu o brif ddrws y Meithrin ar ddiwedd y dydd am 3.30.

Amser cyrraedd a chasglu'r plant – diolch yn fawr i chi gyd am eich cydweithrediad wrth gyrraedd yr ysgol yn y bore ac wrth gasglu'r plant ar ddiwedd y dydd, mae'r trefniadau wedi bod yn effeithiol iawn. Hoffwn eich atgoffa yn garedig i gyrraedd yr ysgol yn brydlon – os ydych yn cyrraedd mewn car yna gofynnir yn garedig i chi ollwng plant yn unig ar y ffordd sy'n arwain at yr ysgol. Peidiwch â pharcio a dod allan o'r car – mi fyddwn eisiau sicrhau llif y drafnidiaeth yn ystod y cyfnod yma. Wrth gasglu'r plant gofynnir yn garedig i rieni ymgasglu ar y cae tua 5 munud cyn yr amser casglu penodol, yn dilyn casglu eich plentyn gofynnir i chi adael ardal yr ysgol yn syth fel bod y criw nesaf yn medru cael mynediad i'r cae.

Cyrraedd y safle		Gadael y safle
8.45 - Blwyddyn 5 a 6 yn cyrraedd y safle (gyda brodyr neu chwirydd iau)		3 o'r gloch – Blwyddyn 5 a 6 yn cael eu casglu o'r cae (gyda brodyr neu chwirydd iau)
9.00 - Blwyddyn 3 a 4 yn cyrraedd y safle (gyda brodyr neu chwirydd iau)		3.15 - Blwyddyn 3 a 4 yn cael eu casglu o'r cae (gyda brodyr neu chwirydd iau)
9.15 - Blwyddyn 1 a 2 yn cyrraedd y safle		3.30 - Blwyddyn 1 a 2 yn cael eu casglu o'r cae.

Dysgu Cyfunol – mi fydd dysgu o adref drwy weithgareddau ar Teams neu wefan yr ysgol yn parhau i bawb fel y prif gyfrwng dysgu ac addysgu. Gobeithio y bydd y cyfnodau yn yr ysgol yn sicrhau cyfleoedd cymdeithasol i'r disgyblion i ddal lan gyda chyfoedion a staff ac yn gyfle i adolygu a chefnogi dysgu o adref.

Adroddiadau Cofnod Cynnydd – er fod hon wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn i'r arfer mi fyddwn y parhau i ddosbarthu adroddiadau cofnod cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn addysgol. Mi fyddwn yn dosbarthu rhain drwy e bost eleni ac yn anelu i wneud hyn ddydd Gwener nesaf, Gorffennaf 10fed. Yn sgîl y cyfyngiadau ni fydd cyfle i chi ddod i'r ysgol i drafod yr adroddiad ond mae croeso i chi danfon unrhyw sylwadau yn ôl drwy e bost at yr athrawon dosbarth.

**Cofion gore atoch,
R C Williams, Pennaeth,
03/07/2020**



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Dear Parents / Guardians, Staff and Pupils - I hope you are keeping safe and well and continuing to follow the guidelines in responding to the challenge of Coronavirus.

Returning to school: Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6 - '**Check in, catch up and get ready for Summer and September**'. It was very nice to see many of you return to school, about 75 of you attended on Monday, 80 on Tuesday and 85 on Thursday. Many of you have also taken advantage of the Nursery childcare Hub service for children of frontline workers. However, we respect your decision if you have not sent your child / children back to school before the Summer holidays.

Nursery and Reception - The Education Authority will make a decision regarding the situation of Nursery and Reception pupils returning to school in the next few days - more details to follow shortly.

Childcare Hub (frontline workers) The Childcare Hub will continue to be held at Ysgol Gymraeg. We will continue to ask parents / guardians to drop their children outside the school gates. Members of the school staff supervising the Hub will meet the children at the main gate and escort them to the Hub. They will need to be collected from the main Nursery door at the end of the day at 3.30.

Arriving at school and collecting children - **thank you all for your co-operation in getting your children to school in the morning and collecting them at the end of the day, the arrangements have been very effective.** I would like to remind you to arrive at school on time - if you arrive by car then you are kindly requested to drop off children only on the road leading to school. Don't park and get out of the car - we will want to ensure the flow of traffic during this time. When collecting the children parents are kindly requested to gather on the field approximately 5 minutes before the specified collection time, following the collection of your child / children you will be asked to leave the school area immediately so that the next crew can access the field.

Arriving at school		Collecting your children from school
8.45 - Years 5 and 6 arrive on site (with younger siblings)		3 o'clock - Years 5 and 6 are collected from the field (with younger siblings)
9.00 - Years 3 and 4 arrive on site (with younger siblings)		3.15 - Years 3 and 4 collected from the field (with younger siblings)
9.15 - Years 1 and 2 arrive on site		3.30 - Years 1 and 2 collected from the field

Blended Learning - learning from home through activities on Teams or the school website will continue to be the main medium of learning and teaching. It is hoped that the periods in school will provide social opportunities for pupils to catch up with peers and staff and provide an opportunity to review and support learning from home.

Progress Reports - although this has been a very different year to normal we will continue to issue progress reports at the end of the academic year. We will be distributing these by email this year and aim to do this next Friday, July 10th. Due to the restrictions you will not be able to come to the school to discuss the report but you are welcome to email any comments back to the class teachers.

Best wishes to you all,
R C Williams, Headteacher
03/07/2020